| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | • **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio (12 Tachwedd 2015)**<br>• **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol (16 Tachwedd 2015)** |
| **DYDDIAD:** | **12 Tachwedd 2015 / 16 Tachwedd 2015** |
| **PWNC:** | **Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Plant** |
| **AELOD PORTFFOLIO:** | **Y Cynghorydd Aled Morris Jones** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>**Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Swyddog Sgriwtini**<br><br>**01248752039**<br>**gwrce@ynysmon.gov.uk** |

## 1.0 ARGYMHELLIAD

1.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r adroddiad a chymeradwyo penodi Is-gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ac Arweinydd yr Wrthblaid yn Aelodau o'r Bwrdd Trawsnewid Gwasanaethau Plant.

## 2.0 RHESYMAU AM Y PENDERFYNIAD

2.1 Cafwyd cais gan y Gwasanaethau Plant i Aelod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol wasanaethu fel cynrychiolydd ar Fwrdd Rhaglen arfaethedig ar gyfer Trawsnewid Gwasanaethau Plant. Dylai'r Aelodau nodi **nad yw'r** Bwrdd hwn yn un o'r ddau Fwrdd Rhaglen Trawsnewid newydd a sefydlwyd gan y Cyngor. Yn hytrach, mae'n fwrdd annibynnol a fydd yn adrodd i'r ddau Fwrdd Trawsnewid newydd fel y sy'n briodol.

2.2 Ar 23 Hydref 2015 ystyriwyd y cais gan Fforwm Cydlynu Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Sgriwtini. Ar ôl rhoi sylw i'r mater ystyriwyd mai'r ffordd fwyaf briodol ymlaen fyddai i Is-gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol (Y Cynghorydd Gwilym Jones) gael ei enwebu fel cynrychiolydd y Pwyllgor Sgriwtini ar y Bwrdd ac mai Arweinydd yr Wrthblaid ddylai fod yr ail gynrychiolydd.

2.3 Ystyriwyd y byddai'n ddoeth pe bai aelodaeth y Bwrdd yn adlewyrchu aelodaeth y ddau Fwrdd Trawsnewid Newydd. O dan strwythur newydd y ddau Fwrdd Trawsnewid bydd eu haelodaeth yn cynnwys cynrychiolwyr Pwyllgorau Sgriwtini ac Arweinydd yr Wrthblaid.

## 3.0 BWRDD RHAGLEN TRAWSNEWID GWASANAETHAU PLANT

3.1 Bydd y Bwrdd yn un o'r prif ffrydiau gwaith a wneir gan y Gwasanaethau Cymunedol yn y Gyfadran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol. Hwn yw'r cyfrwng a ddefnyddir gan yr Adran i sicrhau y bydd y weledigaeth y cytunwyd arni yn dod yn realiti ar gyfer y Gwasanaethau Plant.

3.2 Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am gynnal trosolwg o'r prosiectau a nodir yn y Rhaglen Drawsnewid ac am eu cyflawni mewn dull amserol. Bydd hyn yn rhoi hyder y bydd y buddion a ragwelir i'r Cyngor ac i gymunedau Ynys Môn yn cael eu gwireddu ac yn sicrhau y cyflawnir gweithgareddau yn unol ag amcanion corfforaethol Ynys Môn a themâu'r diwylliant trawsnewid.

**Nodau'r Bwrdd**

- Hyrwyddo a gyrru'r rhaglen i gyflawni'r canlyniadau a'r buddion a nodwyd ac i gydlynu a llywodraethu defnydd teg o adnoddau rheoli prin ar draws y rhaglen
- Gyrru newid a gwelliant yn y gwasanaeth i gyflawni Blaenoriaethau'r Gwasanaeth Plant a gofynion y Ddeddf.
- Gwireddu buddion y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Plant
- Cydlynu ac arwain prosiectau a'r rhaglen gyffredinol
- Sicrhau, gyda chymorth y Rheolydd Rhaglen, bod prosiectau unigol yn y gwasanaeth yn cael eu rheoli, eu cyflawni a'u monitro yn unol â disgwyliadau, gan ddysgu gwersi a rhannu arferion da.
- Rhoi hyder i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, Pwyllgorau Sgriwtini, y Pwyllgor Gwaith, Rheoleiddwyr (h.y. adolygiadau / archwiliadau allanol ac archwiliadau mewnol) a gweithwyr ledled y Cyngor ynghylch y cynnydd a wneir gyda'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Plant a'i phrosiectau unigol, gan sicrhau cyfathrebu mewn modd tryloyw, hwylus ac amserol.

## 4.0 CASGLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio nodi'r adroddiad a chymeradwyo penodi Is-Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ac Arweinydd yr Wrthblaid fel Aelodau o'r Bwrdd Rhaglen ar gyfer Trawsnewid Gwasanaethau Plant.

Awdur: Geraint Wyn Roberts
Teitl y Swydd: Swyddog Sgriwtini
Dyddiad: 26 Hydref 2015